Canllawiau i rieni, gofalwyr a myfyrwyr ar drefniadau mynediad

Beth yw trefniadau mynediad?

- Mae trefniadau mynediad yn caniatáu i fyfyrwyr ag anghenion penodol, megis anghenion addysgol arbennig ac anableddau, gael mynediad i arholiad.
- Maent yn galluogi myfyrwyr i ddangos yr hyn y maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr arholiad.

Sut bydd y broses yn dechrau?

- Dylai rhieni a gofalwyr roi gwybod i'r CAAA cyn gynted â phosibl os oes gan eu plentyn anghenion ychwanegol. Mae cyfathrebu da ac agored yn bwysig.
- Dylai myfyrwyr mewn Addysg Bellach gofnodi eu hanghenion ychwanegol ar ffurflen gofrestru'r coleg.
- Bydd y CAAA yn gweithio gydag athrawon a'r myfyriwr i nodi trefniadau posibl.
- Mae trefniadau mynediad amrywiol ar gael. Er enghraifft, cymorth i fyfyrwyr sy'n cael anawsterau gyda darllen, ysgrifennu, cyflymder gweithio a chanolbwyntio.
- Ni fydd angen trefniadau mynediad ar bob myfyriwr ag anghenion ychwanegol. Mae'n dibynnu a yw eu hanhawster yn effeithio ar eu mynediad i arholiadau. Nid yw anghenion ychwanegol yn unig yn rhoi hawl i fyfyriwr gael mynediad i drefniadau.

Pwy fydd yn gwneud yr asesiad?

- Os oes gan fyfyriwr anawsterau dysgu, rhaid i asesydd penodedig yr ysgol neu'r coleg gynnal yr asesiad i bennu'r angen am drefniadau mynediad megis 25% o amser ychwanegol.
- Os bydd aseswr allanol yn gwneud diagnosis o anhawster dysgu (er enghraifft, dyslecsia, dyscalcwlia), dim ond os yw'r aseswr wedi cysylltu â'r ysgol neu'r coleg ymlaen llaw ac wedi derbyn y gwaith papur trefniadau mynediad angenrheidiol y gellir defnyddio'r asesiad fel tystiolaeth ar gyfer trefniadau mynediad.
- Mae arbenigwyr (er enghraifft, ymgynghorydd meddygol, seiciatrydd) yn gyfrifol am ddarparu diagnosis ffurfiol. **Nid** ydynt yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch trefniadau mynediad.
- Rhaid i'r ysgol neu'r coleg benderfynu pa drefniadau mynediad sydd gan fyfyriwr ar gyfer ei arholiadau.
- Rhaid i athrawon roi tystiolaeth i ddangos bod angen trefniant mynediad. Bydd yr ysgol neu goleg yn cofnodi pa mor effeithiol yw'r trefniant yn y dosbarth, mewn profion mewnol neu mewn ffug arholiadau.

Beth arall sydd angen ei wneud?

- Bydd yn rhaid i'r ysgol neu goleg wneud cais am rai trefniadau.
- Os oes gan fyfyriwr anghenion cymhleth, gall ysgol neu goleg drafod eu hanghenion gyda'r bwrdd arholi.

Yn olaf

Rhaid i ysgolion a cholegau ddilyn y rheolau. Cânt eu harolygu ac os canfyddir eu bod yn torri'r rheolau, camymddygiad fydd hyn.